

# Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

Penallta House,  
Tredomen Park,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG

Tŷ Penallta,  
Parc Tredomen,  
Ystrad Mynach,  
Hengoed CF82 7PG



[www.caerphilly.gov.uk](http://www.caerphilly.gov.uk)  
[www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk)

Am unrhyw ymholiad yn ymwneud â'r agenda hwn cysylltwch â Sharon Hughes  
(Rhif Ffôn: 01443 864281 Ebost: [hughesj@caerphilly.gov.uk](mailto:hughesj@caerphilly.gov.uk))

Dyddiad: Dydd Gwener, 19 Mawrth 2021

Annwyl Syr/Fadam,

Bydd cyfarfod o'r **Pwyllgor Craftu Addysg** yn cael ei gynnal trwy Microsoft Teams ar **Dydd Iau, 25ain Mawrth, 2021 am 5.30 pm** i ystyried materion a gynhwysir yn yr agenda canlynol. Gall cynghorwyr a'r cyhoedd sy'n dymuno siarad am unrhyw eitem wneud hynny drwy wneud cais i'r Cadeirydd. Mae croeso i chi ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn y cyfarfod, a dylid rhoi cyfnod rhybudd o 3 diwrnod gwaith os ydych yn dymuno gwneud hynny.

Mae pob cyfarfod Pwyllgor yn agored i'r Wasg a'r Cyhoedd. Gofynnir i arsylwyr a chyfranogwyr ymddwyn gyda pharch ac ystyriaeth at eraill. Sylwer y bydd methu â gwneud hynny yn golygu y gofynnir i chi adael y cyfarfodydd ac efallai y cewch eich hebrwng o'r safle.

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Christina Harrhy'.

**Christina Harrhy**  
PRIF WEITHREDWR

## A G E N D A

Tudalennau

1 I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb

2 Datganiadau o Ddiddordeb.

Atgoffi'r Cynghorwyr a Swyddogion o'u cyfrifoldeb personol i ddatgan unrhyw fuddiannau personol a/neu niweidiol mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes ar yr agenda hwn yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a Swyddogion.

A greener place Man gwyrddach



I dderbyn ac ystyried yr adroddiadau Craffu canlynol:-

- |   |                                                                                                                                        |         |
|---|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|---------|
| 3 | Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif – Cynnig Cam 2 ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin.                        | 1 - 8   |
| 4 | Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif – Cynnig Cam 2 ar gyfer Ysgol iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon. | 9 - 16  |
| 5 | Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif - Cynnig Cam 2 ar gyfer Canolfan i Ddysgwyr Agored i Niwed.              | 17 - 24 |
| 6 | Cynllun Busnes y Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) 2021-2022.                                                                           | 25 - 56 |

#### **Cylchrediad:**

**Cynghorwyr** Mrs E.M. Aldworth, C. Andrews (Is Gadeirydd), P.J. Bevan, A. Collis, C.J. Cuss, W. David, A. Farina-Childs, Ms J. Gale, D.T. Hardacre, D. Havard, M.P. James, B. Miles, Mrs G.D. Oliver, Mrs T. Parry (Cadeirydd), J.E. Roberts a J. Simmonds

#### **Aelodau Cyfetholedig:**

**Cynrychiolwyr Archesgobaeth ROC Caerdydd dros Addysg** (gyda hawliau pleidleisio ar faterion addysgol)  
Mr M. Western

**Cynrychiolwyr Rhiant Llywodraethwyr** (gyda hawliau pleidleisio ar faterion addysgol) G. James (Cynrychiolydd Llywodraethwr Rhiant) a Tracy Millington (Cynrychiolydd Llywodraethwr Rhiant)

**Cynrychiolwyr Cyrff Allanol** (heb hawliau pleidleisio)  
Mrs J. Havard (NEU) a Mrs P. Ireland (NEU)

**Asiantaeth Llywodraethwyr Caerffili** (heb hawliau pleidleisio)  
Mr D Davies

A Swyddogion Priodol

#### **SUT FYDDWN YN DEFNYDDIO EICH GWYBODAETH**

Bydd yr unigolion hynny sy'n mynchu cyfarfodydd pwylgor i siarad/roi tystiolaeth yn cael eu henwi yng nghofnodion y cyfarfod hynny, weithiau bydd hyn yn cynnwys eu man gweithio neu fusnes a'r barnau a fynegir. Bydd cofnodion o'r cyfarfod gan gynnwys manylion y siaradwyr ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor ar [www.caerffili.gov.uk](http://www.caerffili.gov.uk). ac eithrio am drafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael mynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch a'r hawl i gwyno os ydych yn anhapus gyda'r modd y mae eich gwybodaeth yn cael ei brosesu.

Am wybodaeth bellach ar sut rydym yn prosesu eich gwybodaeth a'ch hawliau, ewch i'r [Hysbysiad Preifatrwydd Cyfarfodydd Pwyllgor Llawn](#) ar ein gwefan neu cysylltwch â Gwasanaethau Cyfreithiol drwy e-bostio griffd2@caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 863028.



## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES 25 MAWRTH 2021

**PWNC:** **BAND B Y RHAGLEN YSGOLION A CHOLEGAU AR GYFER YR  
21<sup>AIN</sup> GANRIF – CYNNIG CAM 2 AR GYFER YSGOL GYNRADD  
PLASYFELIN**

**ADRODDIAD GAN:** **Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL AR GYFER ADDYSG  
A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn yw ceisio barn Aelodau ar gam nesaf (Cam 2) Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- 1.2 Nodwyd 3 phrosiect fel rhan o Gam 2, ac un o'r rheiny yw cynnig Ysgol Gynradd Plasyfelin, a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

### 2. CRYNODEB

- 2.1 Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am sefyllfa bresennol Band B y Rhaglen Gyfalaf (£78 miliwn) i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- 2.2 Mae Ysgol Gynradd Plasyfelin wedi'i nodi fel rhan o Gam 2 Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- 2.3 Mae'r cynnig yn ymwneud ag adeiladu ysgol newydd a mwy o faint ar safle presennol yr ysgol er mwyn ateb y galw disgwyliedig yn yr ardal yn y dyfodol. Bydd yr ysgol newydd yn darparu 420 o leoedd i ddisgyblion, yn ogystal â dosbarth meithrin.
- 2.4 Mae'r prosiect a amlinellir yn 2.3 uchod yn y camau datblygu cynnar a bydd swyddogion yn sicrhau bod Aelodau yn cael diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â phob agwedd ar y cynnig a'r prosesau yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

### **3. ARGYMHILLION**

- 3.1 Gofynnir i Aelodau wneud y canlynol:
- Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.
  - Rhannu eu barn a chymeradwyo'r argymhelliaid i fynd ymlaen i gam Achos Busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnig Ysgol Gynradd Plasyfelin cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar 8 Ebrill 2021.

### **4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHILLION**

- 4.1 Sichau bod Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd rhaglen Gyfalaif Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif a cheisio barn yr Aelodau a'u cymeradwyaeth ar gyfer yr argymhelliaid y dylai'r Cabinet gyflwyno cynnig Ysgol Gynradd Plasyfelin mewn achos busnes Llywodraeth Cymru.

### **5. YR ADRODDIAD**

#### **5.1 Band B**

- 5.1.1 Mae nodau allweddol rhaglen fuddsoddi Band B Addysg ac Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif wedi'u hamlinellu gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:
- Lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael.
  - Sicrhau bod gennym ysgolion o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir, sy'n cynnig digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
  - Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol i'w defnyddio gan Ysgolion a'r Gymuned ehangach.
- 5.1.2 Y ddau gynllun cyntaf a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer Cam 1 o raglen Band B yw ehangu Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.
- 5.1.3 Mae'r cynlluniau a nodwyd fel rhan o Gam 2 o raglen Band B yn cynnwys addasu ac adnewyddu hen adeilad yr ysgol ramadeg ar hen safle Ysgol Uwchradd Pontllanfraith er mwyn cynnwys Uned Cyfeirio Disgyblion (Canolfan ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed), uno Ysgol Iau Llancaeac ac Ysgol Fabanod Llanfabon drwy ehangu safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon er mwyn darparu ar gyfer 275 o ddisgyblion yn ogystal â dosbarth meithrin, a chreu adeilad newydd a mwy o faint ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin ar safle presennol yr ysgol er mwyn ateb y galw disgwyliedig yn y dyfodol.
- 5.1.4 Nod Rhaglen Band B Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yw adeiladu ysgolion newydd, ehangu ysgolion, uno ysgolion, adleoli ysgolion ac adnewyddu ysgolion, sydd i gyd â'r potensial i gefnogi strategaethau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar ddatgarboneiddio a darparu model cyflawni newydd.

## **5.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwytio ar Ysgol Plasyfelin**

- 5.2.1 Mae trawsnewid addysgol yn dal i fod yn un o ganlyniadau hanfodol ein buddsoddiad ym Mand B y Rhaglen. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig iawn inni fynd i'r afael â chyflwr adeiladau ein hysgolion. Nodwyd a chytunwyd ar sawl prosiect gan weithgor trawsbleidiol fel rhan o'r gwaith o lunio'r Cynllun Amlinellol Strategol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r rhaglen Band B ar gyfer Caerffili.
- 5.2.2 Yn unol â 5.2.1, nododd yr Awdurdod fod angen buddsoddi yn Ysgol Gynradd Plasyfelin. Cafodd ei dylunio fel Ysgol Fabanod ac Ysgol lau ar wahân yn wreiddiol, ond mae safle presennol Ysgol Gynradd Plasyfelin yn cynnwys dau adeilad ysgol CLASP (Rhaglen Arbennig Consortiw m o Awdurdodau Lleol) parod, wedi'u cysylltu gan Iwybr agored. Dim ond 30% o'r ystafelloedd dosbarth oedd yn cydymffurfio â'r gofynion o ran maint (56m<sup>2</sup>) a bennir gan Lywodraeth Cymru yn unol â Rheoliadau Bwletin Adeiladau 99.
- 5.2.3 Mae a wnelo'r cynnig ag adeiladu ysgol newydd a mwy o faint ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin a fydd wedi'i lleoli ar safle presennol yr ysgol. Bydd yn cynnwys lleoedd i fwy o ddisgyblion, hyd at 420, a darpariaeth dosbarth meithrin, yn ogystal â chyfleusterau chwaraeon a chymunedol aml-ddefnydd ychwanegol. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau y gellir ateb y galw disgwyliedig yn y dyfodol yn yr ardal hon a diweddar y cyfleuster er mwyn darparu cyfleuster 21<sup>ain</sup> Ganrif sy'n addas at y diben.
- 5.2.4 Ein dyhead ni, ac un o ragofynion y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, yw ymrwymo i sicrhau bod asedau ar gael i gefnogi angen addysgol a defnydd cymunedol, hyrwyddo cadernid cymunedol a chyfrannu at gyflawni sawl un o Strategaethau'r Awdurdod Lleol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r seilwaith a'r adnoddau newydd, fel rhan o'r cynllun, caiff hyblygrwydd ei sicrhau wrth adeiladu'r ysgol mewn ffordd a fydd yn ateb galw lleol.
- 5.2.5 Nodwyd bod y cyllid ar gyfer y prosiect yn dod o amlen cyllid Band B. Cyfradd ymyrryd Llywodraeth Cymru ar gyfer y math hwn o gynllun Cyfalaf yw 65%, gyda'r Awdurdod Lleol yn talu 35% o'r costau sy'n weddill fel y'u dadansoddir isod, yn amodol ar unrhyw gostau anormal:

<b>Enw'r Prosiect:</b>	<b>Cyfraniad yr Awdurdod Lleol</b>	<b>Cyfraniad Llywodraeth Cymru</b>	<b>Cyfanswm y Cyllid</b>
Ysgol Gynradd Plasyfelin	£3,150,000 (35%)	£5,850,000	£9,000,000

- 5.2.6 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn berthnasol i gynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir gan Adran 98 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
- 5.2.7 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ar y prosesau y mae angen i'r Gyfarwyddiaeth Addysg gydymffurfio â nhw wrth ddatblygu cynnig.
- 5.2.8 Amlinellir y broses i'w dilyn isod (yn seiliedig ar y dybiaeth bod cymeradwyaeth wedi'i sicrhau ar bob cam):

- Cyflwyno adroddiad i'r Cabinet i'w gymeradwyo er mwyn datblygu cynnig drwy broses Achos Busnes Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif Llywodraeth Cymru
- Amlinellu Achos Busnes a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i gymeradwyo yn ystod cyfarfod y Grŵp Craffu ar Achosion Busnes a'i Banel Buddsoddi Rhaglen
- Oherwydd natur y cynllun, nid oes angen cynnal unrhyw gyfnod ymgynghori ffurfiol yn unol â'r canllawiau statudol a ddarperir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Fodd bynnag, ymgysylltir â'r ysgol yn ogystal â'r gymuned ehangach drwy gydol y broses yn unol â fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Awdurdod.
- Bydd y Gwasanaethau Eiddo yn cynnal proses cais cynllunio llawn, gan gynnwys ymgynghoriad ffurfiol yn unol â chanllawiau cynllunio.
- Cyflwyno Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i gymeradwyo'n derfynol yn ystod cyfarfod Grŵp Craffu ar Achosion Busnes a Phanel Buddsoddi Rhaglen Llywodraeth Cymru.

5.2.9 Mae cynnydd pob cam yn amodol ar graffu, adolygu a chymeradwyaeth gan Aelodau'r Cabinet a/neu Lywodraeth Cymru.

5.2.10 Mae unrhyw brosiect lle y mae angen gwneud gwaith adeiladu neu addasu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn ddarostyngedig i broses gynllunio lawn ar wahân a gynhelir gan Isadran Gwasanaethau Eiddo y Cyngor.

### **5.3 Casgliad**

Gofynnir i aelodau gymeradwyo'r argymhellion er mwyn symud ymlaen i gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phrosiect cam 2 – Ysgol Gynradd Plasyfelin

## **6. RHAGDYBIAETHAU**

6.1 Ni wnaed unrhyw ragdybiaethau mewn perthynas â'r adroddiad hwn am ei fod ond yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd prosiectau unigol.

## **7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISIAU PERTHNASOL Y CYNGOR**

7.1 Strategaeth Cyrhaeddiad Caerffili: Codi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch, ac yn uchelgeisiol, a'u bod yn gallu cael mynediad i gyfleoedd, lleoliadau, a phrofiadau addysgol o ansawdd uchel.

### **7. 2 Cynllun Corfforaethol 2018-2023.**

Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant Corfforaethol canlynol:

- Amcan 1 - Gwella cyfleoedd addysg i bawb
- Amcan 2 - Galluogi cyflogaeth
- Amcan 5 – Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7.3 Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at y Strategaethau canlynol:

- Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol Caerffili (2018-2028)
- Strategaeth Uchelgeisiau a Rennir (2019-2022)
- Gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon
- Strategaeth Ddatgarboneiddio: Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwys, Prynu

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrf cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio gyda phobl a chymunedau, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgylltiedig. Bydd hyn yn creu Cymru y mae pob un ohonom am fyw yn ddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydherth.
- Cymru iachach.
- Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

8.2 Mae'r Ddeddf yn pennu'r egwyddor datblygu cynaliadwy y dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru asesu eu trefniadau gwneud penderfyniadau yn ei erbyn. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy wneud yn siŵr bod cyrrf cyhoeddus yn gwneud y cyfraniad gorau posibl tuag at y nodau llesiant. Wrth ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mae dyletswydd ar yr awdurdod i ystyried y boblogaeth gyfan y mae'n ei gwasanaethu ac ystyried effaith ei weithredoedd ar genedlaethau'r dyfodol. Caiff yr egwyddor, a elwir hefyd y pum ffordd o weithio, ei asesu isod:

- **Hirdymor** - Mae trefniadau rhagweld niferoedd disgylion wedi cael eu defnyddio i nodi'r galw ar gyfer lleoedd ysgolion er mwyn sicrhau digon o leoedd Addysgol yn ein hysgolion. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i flaenoriaethu ysgolion o fewn y Rhaglen Amlinellol Strategol.
- **Atal** – Bydd gwella ansawdd yr ystâd Addysg yn gyffredinol yn helpu disgylion yn eu haddysg hirdymor a'u canlyniadau o ran sgiliau, hynny yw, byddant yn fwy tebygol o Iwyddo os yw eu profiad Addysgol yn un cadarnhaol.
- **Integreiddio** – Mae Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn ddarostyngedig i BREEAM a chaiff Buddiannau Cymunedol cynigion unigol eu hasesu a'u monitro er mwyn mesur yr effaith y maent yn ei chael ar economi Cymru. Mae'r cynigion hefyd yn rhan o strategaeth i gefnogi'r Gymraeg a Diwylliant Cymru.
- **Cydweithredu** – Mae'r Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn gydweithrediad rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru er mwyn gwella ansawdd yr ystâd Addysg.
- **Cynnwys** – Drwy'r broses ymgynghori, bydd y Cyngor yn gwneud yn siŵr ei fod yn ymgysylltu'n llawn â phob rhanddeiliad perthnasol, e.e. rhieni, disgylion a'r gymuned leol. Partneriaeth gydweithredol rhwng Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac Is-Adran y Blynnyddoedd Cynnar, sy'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol.

## **9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEBAU**

- 9.1 Caiff pob Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb perthnasol ar gyfer prosiectau unigol yng Ngham 2 ei gynnal ar gam priodol, a bydd ar gael i unrhyw un sydd am gael gafael ar gopiâu ohono yn ogystal â chael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## **10. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 10.1 Mae Aelodau eisoes wedi cytuno i glustnodi cyfanswm o £6.975 miliwn ar gyfer Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn cyfrannu tua £6.413 miliwn at Brosiect Cae'r Drindod a Phrosiect Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyfraniad o £647 mil o gronfa wrth gefn Cyfalaf Gwasanaethau Cymdeithasol a glustnodir er mwyn cefnogi gwariant ychwanegol ar Brosiect Cae'r Drindod. O ganlyniad, ar hyn o bryd, y balans sydd heb ei neilltu o'r £6.975 miliwn yw £1.209 miliwn.

- 10.2 Cyfanswm Cam 2 y rhaglen yw £18,500,000. Mae'r Awdurdod wedi cyfrannu £5,925,000 at y cyfanswm hwn.

Enw'r prosiect:	Cyfraniad yr Awdurdod Lleol	Cyfraniad Llywodraeth Cymru	Cyfanswm y Cyllid
<b>Ysgol Gynradd Plasyfelin</b>	<b>£3,150,000 (35%)</b>	<b>£5,850,000</b>	<b>£9,000,000</b>
Uned Cyfeirio Disgyblion	£1,375,000 (25%)	£4,125,000	£5,500,000
Llancaeach/Llanfabon	£1,400,000 (35%)	£2,600,000	£4,000,000

Amcangyfrifir bod yr Awdurdod wedi cyfrannu £5,952,000 at gam 2 y rhaglen, fel y nodir uchod. Caiff y gost hon ei thalu o'r cyllid sy'n weddill, sef £1.209 miliwn, sydd eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, a ffigur o £4.716 miliwn o Gronfa Wrth Gefn Llunio Lleoedd yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu cyfanswm o £12.338 miliwn ar gyfer y pum prosiect hyn

## **11. GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL**

- 11.1 Bydd y rhain yn dibynnu ar gynigion penodol ac maent wedi'u hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

## **12. YMGYNGORIADAU**

- 12.1 Cafodd yr adroddiad drafft ei ddosbarthu fel y nodir isod. Mae'r holl sylwadau a ddaeth i law wedi'u hadlewyrchu yn y fersiwn hon o'r adroddiad.

### **13. PWER STATUDOL**

- 13.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (Llywodraeth Cymru)  
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Awdur: Andrea West, Rheolwr Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Ymgylcheddau:

Christina Harrhy, Prif Weithredwr  
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol  
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol  
Mark S. Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau  
Y Cynghorydd Ross Whiting, Aelod o'r Cabinet, Addysg a Chyflawniad  
Y Cynghorydd Teresa Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg  
Y Cynghorydd Carol Andrews, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg  
Steve Harris, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog A151  
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg  
Sue Richards, Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth  
Sarah Ellis, Arweinydd ar gyfer Cynhwysiant ac ADY  
Sarah Mutch, Rheolwr y Blynnyddoedd Cynnwr  
Paul Warren, Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion  
Jane Southcombe, Rheolwr Gwasanaethau Ariannol  
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl  
Anwen Cullinane, Uwch-swyddog Polisi, Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori  
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a Cyfreithiol a Swyddog Monitro  
Ros Roberts, Rheolwr Gwella Busnes  
Mark Williams, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro  
Steve Pugh, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol

Papurau Cefndir:

Ni ddarparwyd unrhyw papurau

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES 25 MAWRTH 2021

**PWNC:** **RHAGLEN BAND B ADDYSG AC YSGOLION AR GYFER YR  
21<sup>AIN</sup> GANRIF – CAM 2 YSGOL IAU LLANCAEACH AC  
YSGOL FABANOD LLANFABON**

**ADRODDIAD GAN:** **Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL AR GYFER ADDYSG  
A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn yw ceisio barn Aelodau ar gam nesaf (Cam 2) Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- 1.2 Nodwyd 3 phrosiect fel rhan o Gam 2, ac un o'r rheiny yw cynnig Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon, a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

### 2. CRYNODEB

- 2.1 Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am sefyllfa bresennol Band B y Rhaglen Gyfalaf (£78 miliwn) i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- 2.2 Mae Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon wedi'u nodi fel rhan o Gam 2 Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.
- 2.3 Y cynnig yw uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon drwy ehangu ac adnewyddu safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon i gynnwys yr Ysgol Gynradd newydd, gyda lleoedd i 275 o ddisgyblion, yn ogystal â dosbarth meithrin.
- 2.4 Mae'r prosiect a amlinellir yn 2.3 uchod yn y camau datblygu cynnar a bydd swyddogion yn sicrhau bod Aelodau yn cael diweddarriadau rheolaidd mewn perthynas â phob agwedd ar y cynnig a'r prosesau yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

### 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i Aelodau wneud y canlynol:

- a) Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.
- b) Rhannu eu barn a chymeradwyo'r argymhelliaid i fynd ymlaen i gam Achos Busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnig Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar 8 Ebrill 2021.

#### **4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION**

4.1 Sicrhau bod Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd rhaglen Gyfalaf Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif a cheisio barn yr Aelodau a'u cymeradwyaeth ar gyfer yr argymhelliaid y dylai'r Cabinet gyflwyno cynnig Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon mewn achos busnes Llywodraeth Cymru.

#### **5. YR ADRODDIAD**

##### **5.1 Band B**

5.1.1 Mae nodau allweddol rhaglen fuddsoddi Band B Addysg ac Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif wedi'u hamlinellu gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael.
- Sicrhau bod gennym ysgolion o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir, sy'n cynnig digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
- Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol i'w defnyddio gan Ysgolion a'r Gymuned ehangach.

5.1.2 Y ddau gynllun cyntaf a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer Cam 1 o raglen Band B yw ehangu Ysgol Arbennig Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.

5.1.3 Mae'r cynlluniau a nodwyd fel rhan o Gam 2 o raglen Band B yn cynnwys addasus ac adnewyddu hen adeilad yr ysgol ramadeg ar hen safle Ysgol Uwchradd Pontllanfraith er mwyn cynnwys Uned Cyfeirio Disgyblion (Canolfan ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed), uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon drwy ehangu ac adnewyddu safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon er mwyn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr Ysgol Gynradd newydd, a chreu Ysgol Gynradd Plasyfelin newydd a mwy o faint ar safle presennol yr ysgol er mwyn ateb y galw disgwyliedig yn y dyfodol.

5.1.4 Nod Rhaglen Band B Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yw adeiladu ysgolion newydd, ehangu ysgolion, uno ysgolion, adleoli ysgolion ac adnewyddu ysgolion, sydd i gyd â'r potensial i gefnogi strategaethau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar ddatgarboneiddio a darparu model cyflawni newydd.

##### **5.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwytio ar Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon**

- 5.2.1 Mae trawsnewid addysgol yn dal i fod yn un o ganlyniadau hanfodol ein buddsoddiad ym Mand B y Rhaglen. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig iawn inni fynd i'r afael â chyflwr adeiladau ein hysgolion. Nodwyd a chytunwyd ar sawl prosiect gan weithgor trawsbleidiol fel rhan o'r gwaith o lunio'r Cynllun Amlinellol Strategol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r rhaglen Band B ar gyfer Caerffili.
- 5.2.2 Yn unol â 5.2.1, nododd yr Awdurdod fod angen buddsoddi yn Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon er mwyn creu darpariaeth Gynradd 3-11 o un lleoliad er mwyn darparu ar gyfer cyfleouster 21<sup>ain</sup> Ganrif sy'n adidas at y diben, gan leihau achosion lle ceir gormodedd o leoedd, cynyddu cyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol a dileu dwy ysgol categori C mewn perthynas â'u cyflwr.
- 5.2.3 Mae a wnelo'r cynnig ag uno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon drwy ehangu ac adnewyddu safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon i gynnwys y ddarpariaeth Ysgol Gynradd 3-11 newydd, gyda lleoedd i 275 o ddisgyblion, yn ogystal â dosbarth meithrin.
- 5.2.4 Ein dyhead ni, ac un o ragofynion y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru, yw ymrwymo i sicrhau bod asedau ar gael i gefnogi angen addysgol a defnydd cymunedol, hyrwyddo cadernid cymunedol a chyfrannu at gyflawni sawl un o Strategaethau'r Awdurdod Lleol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'r seilwaith a'r adnoddau newydd, fel rhan o'r cynllun, caiff hyblygrwydd ei sicrhau wrth adeiladu'r ysgol mewn ffordd a fydd yn ateb galw lleol.
- 5.2.5 Nodwyd bod y cyllid ar gyfer y prosiect yn dod o amlen cyllid Band B. Cyfradd ymyrryd Llywodraeth Cymru ar gyfer y math hwn o gynllun Cyfalaf yw 65%, gyda'r Awdurdod Lleol yn talu 35% o'r costau sy'n weddill fel y'u dadansoddir isod, yn amodol ar unrhyw gostau anormal:

<b>Enw'r Prosiect:</b>	<b>Cyfraniad yr Awdurdod Lleol</b>	<b>Cyfraniad Llywodraeth Cymru</b>	<b>Cyfanswm y Cyllid</b>
Llancaeach/Llanfabon	£1,400,000 (35%)	£2,600,000	£4,000,000

- 5.2.6 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn berthnasol i gynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir gan Adran 98 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.
- 5.2.7 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn darparu canllawiau statudol clir ar y prosesau y mae angen i'r Gyfarwyddiaeth Addysg gydymffurfio â nhw wrth ddatblygu cynnig.
- 5.2.8 Amlinellir y broses i'w dilyn isod (yn seiliedig ar y dybiaeth bod cymeradwyaeth wedi'i sicrhau ar bob cam):
- Cyflwyno adroddiad i'r Cabinet i'w gymeradwyo er mwyn datblygu cynnig drwy broses Achos Busnes Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif Llywodraeth Cymru
  - Amlinellu Achos Busnes a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i gymeradwyo yn ystod cyfarfod y Grŵp Craffu ar Achosion Busnes a'i Banel Buddsoddi Rhaglen
  - Oherwydd natur y cynllun, caiff proses ymgynghori ei chynnal, yn unol â'r canllawiau statudol a ddarperir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.
  - Caiff 'Dogfen Ymgynghori' ei chyhoeddi a bydd ymgynghoreion, fel y'u rhagnodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, yn cael cyfle i fynegi eu barn ar y cynnig yn ystod y cyfnod ymgynghori.

- Bydd sylwadau Plant a Phobl Ifanc hefyd yn cael eu casglu er mwyn sicrhau bod 'llais y disgybl' yn cael ei gynnwys yn y broses.
- Caiff 'Adroddiad ar yr Ymgynghoriad' ei lunio yn crynhoi'r sylwadau a ddaw i law, a chaiff ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Addysg er mwyn cymeradwyo'r argymhellion. Yna, caiff ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo er mwyn symud ymlaen i gyhoeddi Hysbysiad Statudol.
- Caiff 'Hysbysiad Statudol' ei gyhoeddi am gyfnod o 28 diwrnod lle y gall ymgynghoreion rhagnodedig, fel y'u hamlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, gyflwyno gwrthwynebiadau ffurfiol yn ysgrifenedig.
- Caiff 'Adroddiad Gwrthwynebiadau' yn crynhoi'r pryderon ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r argymhellion i'r Cabinet er mwyn symud ymlaen i Achos Busnes Llawn.
- Bydd y Gwasanaethau Eiddo yn cynnal proses cais cynllunio llawn, gan gynnwys ymgynghoriad ffurfiol yn unol â chanllawiau cynllunio.
- Cyflwyno Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i gymeradwyo'n derfynol yn ystod cyfarfod Grŵp Craffu ar Achosion Busnes a Phanel Buddsoddi Rhaglen Llywodraeth Cymru.

- 5.2.9 Mae cynnydd pob cam yn amodol ar graffu, adolygu a chymeradwyaeth gan Aelodau'r Cabinet a/neu Lywodraeth Cymru.
- 5.2.10 Mae unrhyw brosiect lle y mae angen gwneud gwaith adeiladu neu addasu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn ddarostyngedig i broses gynllunio lawn ar wahân a gynhelir gan Isadran Gwasanaethau Eiddo y Cyngor.

### **5.3 Casgliad**

Gofynnir i aelodau gymeradwyo'r argymhellion er mwyn symud ymlaen i gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phrosiect cam 2 – Ysgol Iau Llancaeac ac Ysgol Fabanod Llanfabon.

## **6. RHAGDYBIAETHAU**

- 6.1 Ni wnaed unrhyw ragdybiaethau mewn perthynas â'r adroddiad hwn am ei fod ond yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd prosiectau unigol.

## **7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISIâu PERTHNASOL Y CYNGOR**

- 7.1 Strategaeth Cyrhaeddiad Caerffili: Codi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch, ac yn uchelgeisiol, a'u bod yn gallu cael mynediad i gyfleoedd, lleoliadau, a phrofiadau addysgol o ansawdd uchel.

### **7.2 Cynllun Corfforaethol 2018-2023.**

Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant Corfforaethol canlynol:

- Amcan 1 - Gwella cyfleoedd addysg i bawb
- Amcan 2 - Galluogi cyflogaeth

- Amcan 5 – Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu cynaliadwy yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7.3 Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at y Strategaethau canlynol:

- Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol Caerffili (2018-2028)
- Strategaeth Dyheadau a Rennir (2019-2022)
- Gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon
- Strategaeth Ddatgarboneiddio: Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwys, Prynu

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrf cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio gyda phobl a chymunedau, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgylltiedig. Bydd hyn yn creu Cymru y mae pob un ohonom am fyw yn ddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydherth.
- Cymru iachach.
- Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

8.2 Mae'r Ddeddf yn pennu'r egwyddor datblygu cynaliadwy y dylai pob corff cyhoeddus yng Nghymru asesu eu trefniadau gwneud penderfyniadau yn ei erbyn. Nod y ddeddfwriaeth yw sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol drwy wneud yn siŵr bod cyrrf cyhoeddus yn gwneud y cyfraniad gorau posibl tuag at y nodau llesiant. Wrth ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy mae dyletswydd ar yr awdurdod i ystyried y boblogaeth gyfan y mae'n ei gwasanaethu ac ystyried effaith ei weithredoedd ar genedlaethau'r dyfodol. Caiff yr egwyddor, a elwir hefyd y pum ffordd o weithio, ei asesu isod:

- **Hirdymor** - Mae trefniadau rhagweld niferoedd disgylion wedi cael eu defnyddio i nodi'r galw ar gyfer lleoedd ysgolion er mwyn sicrhau digon o leoedd Addysgol yn ein hysgolion. Defnyddiwyd y wybodaeth hon i flaenoriaethu ysgolion o fewn y Rhaglen Amlinellol Strategol.
- **Atal** – Bydd gwella ansawdd yr ystâd Addysg yn gyffredinol yn helpu disgylion yn eu haddysg hirdymor a'u canlyniadau o ran sgiliau, hynny yw, byddant yn fwy tebygol o Iwyddo os yw eu profiad Addysgol yn un cadarnhaol.
- **Integreiddio** – Mae Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn ddarostyngedig i BREEAM a chaiff Buddiannau Cymunedol cynigion unigol eu hasesu a'u monitro er mwyn mesur yr effaith y maent yn ei chael ar economi Cymru. Mae'r cynigion hefyd yn rhan o strategaeth i gefnogi'r Gymraeg a Diwylliant Cymru.
- **Cydweithredu** – Mae'r Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yn gydweithrediad rhwng y Cyngor a Llywodraeth Cymru er mwyn gwella ansawdd yr ystâd Addysg.
- **Cynnwys** – Drwy'r broses ymgynghori, bydd y Cyngor yn gwneud yn siŵr ei fod

yn ymgysylltu'n llawn â phob rhanddeiliad perthnasol, e.e. rhieni, disgylion a'r gymuned leol. Partneriaeth gydweithredol rhwng Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif ac Is-Adran y Blynnyddoedd Cynnar, sy'n gweithio gyda'r sector gwirfoddol.

## 9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB

- 9.1 Caiff pob Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb perthnasol ar gyfer prosiectau unigol yng Nham 2 ei gynnal ar gam priodol, a bydd ar gael i unrhyw un sydd am gael gafael ar gopiâu ohono yn ogystal â chael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## 10. GOBLYGIADAU ARIANNOL

- 10.1 Mae Aelodau eisoes wedi cytuno i glustnodi cyfanswm o £6.975 miliwn ar gyfer Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn cyfrannu tua £6.413 miliwn at Brosiect Cae'r Drindod a Phrosiect Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cyfraniad o £647 mil o gronfa wrth gefn Cyfalaf Gwasanaethau Cymdeithasol a glustnodir er mwyn cefnogi gwariant ychwanegol ar Brosiect Cae'r Drindod. O ganlyniad, ar hyn o bryd, y balans sydd heb ei neilltuo o'r £6.975 miliwn yw £1.209 miliwn.

- 10.2 Cyfanswm Cam 2 y rhaglen yw £18,500,000. Mae'r Awdurdod wedi cyfrannu £5,925,000 at y cyfanswm hwn.

Enw'r Prosiect:	Cyfraniad yr Awdurdod Lleol	Cyfraniad Llywodraeth Cymru	Cyfanswm y Cyllid
<b>Llancaeach/Llanfabon</b>	<b>£1,400,000 (35%)</b>	<b>£2,600,000</b>	<b>£4,000,000</b>
Uned Cyfeirio Disgyblion	£1,375,000 (25%)	£4,125,000	£5,500,000
Plasyfelin	£3,150,000 (35%)	£5,850,000	£9,000,000

Amcangyfrifir bod yr Awdurdod wedi cyfrannu £5,952,000 at gam 2 y rhaglen, fel y nodir uchod. Caiff y gost hon ei thalu o'r cyllid sy'n weddill, sef £1.209 miliwn, sydd eisoes wedi'i glustnodi ar gyfer Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif, a ffigur o £4.716 miliwn o Gronfa Wrth Gefn Llunio Lleoedd yr Awdurdod.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ddarparu cyfanswm o £12.338 miliwn ar gyfer y pum prosiect hyn.

## 11. GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL

- 11.1 Bydd y rhain yn dibynnu ar gynigion penodol ac maent wedi'u hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

## 12. YMGYNGORIADAU

- 12.1 Cafodd yr adroddiad drafft ei ddosbarthu fel y nodir isod. Mae'r holl sylwadau a ddaeth i law wedi'u hadlewyrchu yn y fersiwn hon o'r adroddiad.

### **13. PWER STATUDOL**

- 13.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (Llywodraeth Cymru)  
Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Awdur: Andrea West, Rheolwr Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.

Ymgylchedd: Christina Harrhy, Prif Weithredwr  
Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol  
Dave Street, Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol  
Mark S. Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau  
Y Cynghorydd Ross Whiting, Aelod o'r Cabinet, Addysg a Chyflawniad  
Y Cynghorydd Teresa Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg  
Y Cynghorydd Carol Andrews, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg  
Steve Harris, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog A151  
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg  
Sue Richards, Pennaeth Addysg, Cynllunio a Strategaeth  
Sarah Ellis, Arweinydd ar gyfer Cynhwysiant ac ADY  
Sarah Mutch, Rheolwr y Blynnyddoedd Cynnwr  
Paul Warren, Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion  
Jane Southcombe, Rheolwr Gwasanaethau Ariannol  
Lynne Donovan, Pennaeth Gwasanaethau Pobl  
Anwen Cullinane, Uwch-swyddog Polisi, Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ymgynghori  
Rob Tranter, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a Cyfreithiol a Swyddog Monitro  
Ros Roberts, Rheolwr Gwella Busnes  
Mark Williams, Pennaeth Gwasanaethau Eiddo Dros Dro  
Steve Pugh, Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol

Papurau Cefndir:

Ni ddarparwyd unrhyw papurau

Gadewir y dudalen hon yn wag yn fwriadol



## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG GYDOL OES 25 MAWRTH 2021

**PWNC:** **BAND B RHAGLEN ADDYSG AC YSGOLION AR GYFER YR  
21<sup>AIN</sup> GANRIF – CAM 2 YSGOL CYNNIG AR GYFER  
CANOLFAN I DDYSGWYR SY’N AGORED I NIWED**

**ADRODDIAD GAN:** **Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL AR GYFER ADDYSG  
A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

### 1. DIBEN YR ADRODDIAD

- 1.1 Diben yr adroddiad hwn yw ceisio barn Aelodau ar gam nesaf (Cam 2) Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.
- 1.2 Nodwyd 3 phrosiect fel rhan o Gam 2, ac un o'r rheiny yw cynnig y Ganolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed, a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

### 2. CRYNODEB

- 2.1 Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am sefyllfa bresennol Band B y Rhaglen Gyfalaf (£78 miliwn) i Sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.
- 2.2 Mae'r Ganolfan Cyfeirio Disgyblion wedi'i nodi fel rhan o Gam 2 Band B y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif.
- 2.3 Mae'r cynnig yn ymwneud ag addasu ac adnewyddu hen adeilad yr ysgol ramadeg, safle Ysgol Uwchradd Pontllanfraith gynt, er mwyn cynnwys Canolfan newydd i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed.
- 2.4 Mae'r prosiect a amlinellir yn 2.3 uchod yn y camau datblygu cynnar a bydd swyddogion yn sicrhau bod Aelodau yn cael diweddariadau rheolaidd mewn perthynas â phob agwedd ar y cynnig a'r prosesau.
- 2.5 At ddibenion cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru, cyfeirir at y Ganolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed yn yr achos busnes a dogfennaeth ategol fel Uned Cyfeirio Disgyblion.

- 2.6 Mae Unedau Cyfeirio Disgyblion wedi'u heithrio rhag prosesau ymgynghori sydd wedi'u hamlinellu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

### **3. ARGYMHILLION**

- 3.1 Gofynnir i Aelodau wneud y canlynol:
- Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.
  - Rhannu eu barn a chymeradwyo'r argymhelliaid i fynd ymlaen i gam Achos Busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnig y Ganolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed cyn iddo ei ystyried gan y Cabinet ar 7 Ebrill 2021.

### **4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHILLION**

- 4.1 Sichau bod Aelodau yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd rhaglen Gyfalfaf Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif a cheisio barn yr Aelodau a'u cymeradwyaeth ar gyfer yr argymhelliaid y dylai'r Cabinet gyflwyno cynnig y Ganolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed mewn achos busnes Llywodraeth Cymru.

### **5. YR ADRODDIAD**

#### **5.1 Band B**

- 5.1.1 Mae nodau allweddol rhaglen fuddsoddi Band B Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif wedi'u hamlinellu gan Lywodraeth Cymru fel a ganlyn:
- Lleihau nifer yr ysgolion sydd mewn cyflwr gwael.
  - Sicrhau bod gennym ysgolion o'r maint cywir, yn y lleoliadau cywir, sy'n cynnig digon o leoedd i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg.
  - Sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o'r ystâd addysgol i'w defnyddio gan Ysgolion a'r Gymuned ehangach.
- 5.1.2 Y ddau gynllun cyntaf a nodwyd fel blaenoriaeth ar gyfer Cam 1 o raglen Band B yw ehangu Ysgol Arbennig Cae'r Drindod ac adleoli ac ehangu Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon.
- 5.1.3 Mae'r cynlluniau a nodwyd fel rhan o Gam 2 o raglen Band B yn cynnwys addasu ac adnewyddu hen adeilad yr ysgol ramadeg ar hen safle Ysgol Uwchradd Pontllanfraith er mwyn cynnwys Canolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed, uno Ysgol Iau Llancaeac ac Ysgol Fabanod Llanfabon drwy ehangu safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon er mwyn darparu ar gyfer 275 o ddisgyblion yn ogystal â dosbarth meithrin, a chreu adeilad newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Plasyfelin ar safle presennol yr ysgol er mwyn darparu ar gyfer 420 o ddisgyblion yn ogystal â dosbarth meithrin.
- 5.1.4 Nod Band B Rhaglen Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif yw adeiladu ysgolion newydd, ehangu ysgolion, uno ysgolion, adleoli ysgolion ac adnewyddu ysgolion, sydd i gyd â'r

potensial i gefnogi strategaethau Llywodraeth Cymru a'r Cyngor ar ddatgarboneiddio a darparu model cyflawni newydd.

## 5.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwytio ar y Ganolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed

- 5.2.1 Mae trawsnewid addysgol yn dal i fod yn un o ganlyniadau hanfodol ein buddsoddiad ym Mand B y Rhaglen. Rydym hefyd yn cydnabod ei bod yn bwysig iawn inni fynd i'r afael â chyflwr adeiladau ein hysgolion. Nodwyd a chytunwyd ar sawl prosiect gan weithgor trawsbleidiol fel rhan o'r gwaith o lunio'r Cynllun Amlinellol Strategol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn amlinellu'r rhaglen Band B ar gyfer Caerffili.
- 5.2.2 Mae'r Awdurdod wedi cynnal adolygiad helaeth a phellgyrhaeddol o ddarpariaeth ADY ym mhob rhan o'r Fwrdeistref Sirol. Bydd canlyniad y gwaith hwn yn llywio'r gwaith o ddatblygu model ar gyfer darparu gwasanaeth sy'n diwallu anghenion pob dysgwr yn y Fwrdeistref, yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ac yn gwerthuso gofynion ein dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed yn y dyfodol yn gyson, gan roi'r plentyn wrth wraidd yr hyn a wnawn.
- 5.2.3 Mae a wnelo'r cynnig â'r gwaith o addasu ac adnewyddu hen safle Ysgol Uwchradd Pontllanfraith er mwyn cynnwys Canolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed. Mae gofynion y bil diwygio ADY wedi arwain at yr angen i ehangu'r math hwn o ddarpariaeth.
- 5.2.4 Nodwyd bod y cyllid ar gyfer y prosiect yn dod o amlen cyllid Band B:

Enw'r Prosiect:	Cyfraniad yr Awdurdod Lleol	Cyfraniad Llywodraeth Cymru	Cyfanswm y Cyllid
Canolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed	£1,375,000 (25%)	£4,125,000	£5,500,000

- 5.2.5 Mae Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn gymwys i gynigion mewn perthynas ag ysgolion a gynhelir fel y'u diffinnir gan Adran 98 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Nid yw hyn yn cynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion.
- 5.2.6 Math o ysgol neu sefydliad a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yw Uned Cyfeirio Disgyblion, a'i nod yw darparu addysg addas i blant a phobl ifanc na allant gael addysg mewn lleoliadau prif ffrwd o ganlyniad i salwch, gwaharddiadau neu am resymau eraill, yn unol ag Adran 19 o Ddeddf Addysg 1996.
- 5.2.7 At ddibenion cyflwyno adroddiadau i Lywodraeth Cymru, cyfeirir at y Ganolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed yn yr achos busnes a dogfennaeth ategol fel Uned Cyfeirio Disgyblion er mwyn ein galluogi i gael gafael ar y cyllid priodol a'r cymarebau paru priodol.
- 5.2.8 Dilynnir proses Achos Busnes Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif Llywodraeth Cymru ar y cyd â phrosesau gwneud penderfyniadau mewnol y Cyngor, gan gyfeirio at Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
- 5.2.9 Mae'r broses i'w dilyn wedi'i hamlinellu isod:

- Cyflwyno adroddiad i'r Cabinet i'w gymeradwyo er mwyn datblygu cynnig drwy broses Achos Busnes Ysgolion yr 21<sup>ain</sup> Ganrif Llywodraeth Cymru
- Amlinellu Achos Busnes a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i gymeradwyo yn ystod cyfarfod y Grŵp Craffu ar Achosion Busnes a'i Banel Buddsoddi Rhaglen
- Oherwydd natur y cynllun, nid oes angen cynnal unrhyw gyfnod ymgynghori ffurfiol am nad yw'r canllawiau statudol a ddarperir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn berthnasol yn yr achos hwn. Fodd bynnag, ymgysylltir â'r asiantaethau perthnasol yn ogystal â'r gymuned ehangach drwy gydol y broses yn unol â fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Awdurdod.
- Bydd y Gwasanaethau Eiddo yn cynnal proses cais cynllunio llawn, gan gynnwys ymgynghoriad ffurfiol yn unol â chanllawiau cynllunio.
- Cyflwyno Achos Busnes Llawn i Lywodraeth Cymru i'w adolygu a'i gymeradwyo'n derfynol yn ystod cyfarfod Grŵp Craffu ar Achosion Busnes a Phanel Buddsoddi Rhaglen Llywodraeth Cymru.

5.2.10 Mae cynnydd pob cam yn amodol ar graffu, adolygu a chymeradwyaeth gan Aelodau'r Cabinet a/neu Lywodraeth Cymru.

5.2.11 Mae unrhyw brosiect lle y mae angen gwneud gwaith adeiladu neu addasu cyfleusterau sy'n bodoli eisoes yn ddarostyngedig i broses gynllunio lawn ar wahân a gynhelir gan Isadran Gwasanaethau Eiddo y Cyngor.

### 5.3 Casgliad

Gofynnir i aelodau gymeradwyo'r argymhellion er mwyn symud ymlaen i gyflwyno achos busnes i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phrosiect cam 2 – cynnig y Ganolfan i Ddysgwyr sy'n Agored i Niwed.

## 6. RHAGDYBIAETHAU

6.1 Ni wnaed unrhyw ragdybiaethau mewn perthynas â'r adroddiad hwn am ei fod ond yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd prosiectau unigol.

## 7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISIâu PERTHNASOL Y CYNGOR

7.1 Strategaeth Cyrhaeddiad Caerffili: Codi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch, ac yn uchelgeisiol, a'u bod yn gallu cael mynediad i gyfleoedd, lleoliadau, a phrofiadau addysgol o ansawdd uchel.

### 7.2 Cynllun Corfforaethol 2018-2023.

Mae'r cynnig yn cyfrannu at yr Amcanion Llesiant Corfforaethol canlynol:

- Amcan 1 - Gwella cyfleoedd addysg i bawb
- Amcan 2 - Galluogi cyflogaeth

- Amcan 5 – Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw yn unol â'r Egwyddor Datblygu cynaliadwy yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

7.3 Mae'r cynnig hefyd yn cyfrannu at y Strategaethau canlynol:

- Strategaeth Chwaraeon a Hamdden Egniol Caerffili (2018-2028)
- Strategaeth Dyheadau a Rennir (2019-2022)
- Gweledigaeth Chwaraeon Cymru ar gyfer Chwaraeon
- Strategaeth Ddatgarboneiddio: Lleihau, Cynhyrchu, Gwrthbwys, Prynu

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Diben Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrrf cyhoeddus feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio gyda phobl a chymunedau, ceisio atal problemau a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgylltiedig. Bydd hyn yn creu Cymru y mae pob un ohonom am fyw yn ddi, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith:

- Cymru lewyrchus.
- Cymru gydherth.
- Cymru iachach.
- Cymru sy'n fwy cyfartal.
- Cymru o gymunedau cydlynus.
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

